# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y Cyfarfod - Nos Fercher 12.09.23 am 7 o'r gloch yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol**: David Griffiths (DG – Cadeirydd), Geraint Edwards (GE – Is gadeirydd), Huw Davies (HD), Nicola Roberts (NR), Ian Williams (IW), Keith Carroll (KC), Jane Lawrence (JL), Louise Hughes (LH - Cynghorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc).

1. **Ymddiheuriadau**: Jenny Warne, Geraint Micah, Jane Jenkins – Clerc.

2. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2.1 **Datgan Diddordeb:** David Griffiths wedi datgan diddordeb yn ymwneud a materion cynllunio x 2 yn Llanfendigaid.

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**: cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf **(12.07.23)** yn gywir.
**Cynnig:** GE **Eiliwyd:** KC **Arwyddwyd :** David Griffiths.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol - 12.07.23**:

**a) Llwybr Cyhoeddus/Ffordd Ddiddosbarth (Sunbeach)** – llythyr wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau fod pryderon y Cyngor Cymuned wedi eu hanfon ymlaen at y swyddogion perthnasol yn Adran yr Amgylchedd yng Nghyngor Gwynedd.
**Penderfyniad:** aros am ymateb pellach ond holi eto os na cheir ateb erbyn y cyfarfod nesaf.

**b) Wal Derfyn Llwyngwril i Friog** – ymateb wedi ei dderbyn gan Steffan Jones, Cyngor Gwynedd.
Aelodau'r cyngor yn dal i fod yn anhapus gyda'r esboniad mae wedi'i roi gan fod angen mwy o eglurhad ynghylch pwy sy'n gyfrifol am y rhwystrau diogelwch. Mae Network Rail a Cyngor Gwynedd wedi esgeuluso eu dyletswydd gofal i'r cyhoedd ar y safle hwn yn llwyr ac mae'r ffordd y maent wedi delio â'r mater yn gwbl annerbyniol.
**Penderfyniad** → Cwyn i gael ei anfon at yr Ombwdsmon yn ymwneud â'r sefyllfa barhaus hon.

**c) Cais cynllunio NP/69/56M (Sunbeach)** - dim ymateb pellach wedi ei dderbyn gan Barc Cenedlaethol Eryri ynglyn a'r Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu'r cais cynllunio.
**Penderfyniad:** Cynigiodd Louise Hughes ddilyn hyn i fyny a cheisio cael ymateb gan Barc Cenedlaethol Eryri.

**d)** "**Arwyddion beicwyr"** ger y goleuadau traffig Llwyngwril i Friog – dim ymateb gan Gyngor Gwynedd yn dilyn cwyn y Cyngor Cymuned fod yr arwyddion wedi diflannu.
**Penderfyniad** → Clerc i ysgrifennu at Steffan Jones (Adran Rheoli Traffig) yng Nghyngor Gwynedd i gael ei ymateb.

**e) Toiledau Cyhoeddus, Llwyngwril** – Derbyniwyd ateb gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau y byddant yn edrych i mewn i'r mater ymhellach ac yn monitro'r sefyllfa.

f) **Dŵr Cymru** – cafwyd diweddariad gan Geraint Edwards. Mae llythyr hefyd wedi dod i law gan Dŵr Cymru yn cadarnhau nad oes bygythiad uniongyrchol i'r strwythur, ond eu bod yn gwerthfawrogi pryderon y Cyngor Cymuned, a byddant yn siarad â'u contractwyr ynglŷn ag atgyweiriad dros dro ac yn edrych am ateb tymor hir.
Fe fyddan nhw'n cynnal arolwg teledu cylch cyfyng o'r bibell er mwyn sefydlu ei chyflwr.
**Penderfyniad** → y Cyngor Cymuned i fonitro'r sefyllfa a cadw golwg ar y safle cyn y ras hwyaid nesaf!
Llythyr i'w anfon at Dŵr Cymru eto yn y dyfodol os oes angen.

• **Diweddariad o Archwiliad Llawn y Cyngor:** Mae'r holl ddogfennau a ofynnwyd amdanynt eisoes wedi'u cyflwyno. Mae Swyddfa Archwilio Cymru bellach wedi gofyn am gopïau o Reolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned. Mae'r dogfennau hyn bellach wedi'u hanfon ymlaen at yr archwilwyr allanol.

• **Cod Ymddygiad:** Copi o'r Cod Ymddygiad wedi'i adolygu ac wedi ei dosbarthu i bob aelod oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Copi i'w roi i Geraint Micah, Jenny Warne, a'r aelod newydd yn y cyfarfod nesaf.

• **ROSPA:** Cynhaliwyd arolygiad blynyddol o'r Cae Chwarae, Llwyngwril ym Mis Mehefin 2023.
Adroddiad ROSPA wedi'i dderbyn a'i drafod yn y cyfarfod.
Bydd materion a godwyd yn yr adroddiad yn cael eu hymchwilio ymhellach gan GE a HD.

• **Cyfethol Aelod:** llythyr wedi ei dderbyn gan un ymgeisydd yn tynnu allan o gael ei cyfethol i'r sedd wag.
**Penderfyniad** → Felly, cytunodd pawb y dylid cyfethol yr ymgeisydd arall i lenwi'r sedd wag y cyngor cymuned.
Gwahodd Megan Griffiths i'r cyfarfod nesaf ym Mis Hydref.

5. **Gohebiaeth wedi eu derbyn:**

**a) Prosiect Priffyrdd Draenogod**: derbyniwyd gwybodaeth ynglŷn â'r prosiect hwn → dim gweithred pellach.

**b)** "**Grŵp Amgylchedd Llwyngwril"** – Japanese Knotweed – derbyniwyd llythyr gan y grŵp yn gofyn i'r Cyngor Cymuned gefnogi ac ariannu prosiect dileu Japanese Knotweed yn y pentref am y ddwy flynedd nesaf.
Cytunodd yr holl aelodau fod angen mwy o eglurder ynghylch pwy sydd eisoes yn cyfrannu tuag at y prosiect ac a yw'r tirfeddianwyr y mae'n effeithio arnynt hefyd yn cymryd rhan?
Mae angen dadansoddiad o ba arian sydd ganddynt, a pha mor hir y mae'r prosiect yn debygol o fynd ymlaen a faint mae'n debygol o gostio bob blwyddyn.
**Penderfyniad** → llythyr i'w anfon at Cath Severn am ragor o fanylion. Gwahodd aelodau'r grwp i gyfarfod y Cyngor Cymuned i drafod ymhellach, gan nad oes neb o'r Cyngor Cymuned wedi cael gwybod am eu cyfarfodydd ers amser maith. Yn wreiddiol roedd aelod o'r Cyngor Cymuned (Ian Williams) i'w wahodd i holl gyfarfodydd y grwp, ond yn anffodus, nid yw hyn wedi digwydd.

**c) Jet Skis (Llwyngwril)** – llythyr wedi ei dderbyn gan aelod o'r gymuned yn cwyno am yr aflonyddwch parhaus a achosir gan jet skis yn Llwyngwril. Nid oes gan y Cyngor Cymuned unrhyw reolaeth dros y materion hyn gan fod y jet skis yn cael eu lansio o dir preifat, a heb eu trwyddedu.
**Penderfyniad** → ateb i'w anfon yn hysbysu'r unigolyn i ysgrifennu at Swyddog Morwrol Cyngor Gwynedd.

**d) SARPA** – Fideo o'r Gwaith ar Bont y Bermo - link or fideo wedi ei anfon ymlaen i bob aelod.

**e) Un Llais Cymru** – derbyniwyd Dyddiadau Hyfforddiant ar gyfer Mis Medi 2023.

**f) Dail Dysynni** – cais am gyfraniad ariannol. Cytunodd pob aelod i gefnogi → **rhodd o £50.00.**
**Cynnig:** IW **Eilio:** GE.

**g) Parlys Cerebral Cymru** - cais am rodd ariannol. Cytunodd yr holl aelodau gadw y cais yma tan ddiwedd y flwyddyn ariannol cyn penderfynu.

6. **Materion Cynllunio:**

• ***NP5/69/113Q – Llanfendigaid, Rhoslefain** – Gosod 2 res o baneli solar 110kw ar y ddaear –
Dim gwrthwynebiadau na sylwadau i'w cyflwyno i Barc Cenedlaethol Eryri gan y Cyngor Cymuned.

• ***NP5/69/LB157E – Llanfendigaid, Rhoslefain** – Caniatâd Adeilad Rhestredig i gadw gwaith peirianyddol i gyflenwi gwres cynaliadwy di-garbon a dŵr poeth i fythynnod, ynghyd â chreu ystafell offer –
Dim gwrthwynebiadau na sylwadau i'w cyflwyno i Barc Cenedlaethol Eryri gan y Cyngor Cymuned.

- ❖ David Griffiths wedi datgan "Hysbysiad o Ddiddordeb Personol" i'r ddau gais cynllunio uchod ar gyfer Llanfendigaid Rhoslefain, ar lafar a thrwy gwblhau'r gwaith papur perthnasol a gadael y cyfarfod tra bod y ceisiadau'n cael eu trafod.

- **NP5/69/LUL243C – Galeri Llwyngwril, LL37 2JQ** – Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon ar gyfer defnydd yr adeilad a'r cwrtil ar gyfer **dwy uned gwyliau** tymor byr.

Nodwyd nad oes digon o lefydd parcio yn cael eu darparu yma ar gyfer **2 uned gwyliau**, felly ceir sy'n parcio ar y palmant a'r ffordd yn achosi problemau diogelwch a rhwystr y tu allan i'r Galeri yn Llwyngwril.
**Penderfyniad** → Problemau parcio ar y safle i'w hadrodd i Barc Cenedlaethol Eryri.

7. **Adroddiad Ariannol:**

a. **Adroddiad Ariannol ar gyfer Gorffennaf ac Awst 2023** - Cytunwyd fel cyfrif cywir ac fe'i cymeradwywyd.
**Cynnig:** IW **Eilydd:** NR **Arwyddwyd:** DG.

b. **Taliadau** - Tair siec i'w harwyddo. Cyflog a chosta'r Clerc (Jane Jenkins) & treth incwm HMRC, Cyngor Gwynedd – Archwiliad Mewnol 2023.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim.

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Derbyn adroddiad Louise Hughes.

10. **Unrhyw Fater Arall:**

- **Penodi Swyddog Monitro** (yn unol â'r Cod Ymddygiad):
Rhoddodd Geraint Edwards ei enw ymlaen fel Swyddog Monitro'r Cyngor Cymuned.

- **Parc Chwarae Llwyngwril:**
Mae cwynion wedi dod i law gan aelodau o'r gymuned ynglŷn â chyflwr gwael y matiau rwber yn y cae chwarae a'r rwber du yn dod I ffwrdd ac yn staenio dillad y plant.
Codwyd y mater hwn hefyd yn arolygiad diweddar ROSPA o'r cae chwarae a gynhaliwyd ym Mis Mehefin 2023.
Trafodwyd cyflwr gwael y matiau diogelwch rwber a'r polyn troelli wedi torri (Rotator Spica) yn y cae chwarae yn fanwl gan yr aelodau oedd yn bresennol a phenderfynwyd y byddai GE a HD yn archwilio'r offer ymhellach ac yna byddai Geraint yn gofyn am ddyfynbrisiau ar gyfer ailosod y polyn troelli a'r matiau du gan G L Jones.
Dyfyniadau i'w hadolygu yn y cyfarfod nesaf.

- **Newidiadau Mandad Banc:** Bydd yn rhaid gwneud Mandad Banc eto oherwydd fod y banc wedi cadarnhau bod y cais diwethaf wedi dod i ben (gyda 2 lofnod ar goll).
**Penderfyniad** → Clerc i wneud cais am y mandad banc eto , wedyn hysbysu'r aelodau sydd a'i henwau i gael eu hychwanegu at y ffurflen mandad banc y bydd yn rhaid iddynt i gyd gyfarfod wyneb yn wyneb i gael y ffurflen wedi ei llofnodi a'i chwblhau pan mae'r aelodau i gyd gyda'i gilydd.

- **Hyfforddiant ILCA** – mynegodd Jane Jenkins (Clerc) ddiddordeb mewn gwneud yr hyfforddiant hwn.
Cytunodd yr holl aelodau a oedd yn bresennol eu bod yn hapus i Jane Jenkins gofrestru ar gyfer yr hyfforddiant yma.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher – 11.10.23 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan, Llwyngwril

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………………… Dyddiad ………………………………**